**Rhif**: **9**

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Rhif y Cais / Application Number : C16/0886/15/LL**

**Cynllun lleoliad ar gyfer adnabod y safle yn unig. Dim i raddfa.**
**Location Plan for identification purposes only. Not to scale.**



Cais Rhif: C16/0886/15/LL
Dyddiad Cofrestru: 28/07/2016
Math y Cais: Llawn - Cynllunio
Cymuned: Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug, Pentir
Ward: Llanberis, Pentir, Cwm y Glo, Deiniolen, Penisarwaun

Bwriad: CAIS AR GYFER GOSOD LLINNELL CYSWLLT GRID 132KV TANDDAEAROL RHWNG SAFLE STORIO PWMP GLYN RHONWY A IS-ORSAF PENTIR
Lleoliad: GLYN RHONWY PUMPED STORAGE, GLYN RHONWY, LLANBERIS, CAERNARFON, GWYNEDD, LL55 4EL

**Crynodeb o'r Argymhelliad:** CANIATAU GYDAG AMODAU

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais llawn yw hwn ar gyfer gosod llinell cyswllt grid 132kv tanddaearol rhwng safle arfaethedig storio pwmp Glyn Rhonwy a'r is-orsaf drydanol bresennol ym Mhentir.

1.2 Mae hyd y cysylltiad yn mesur oddeutu 8km i gyfeiriad gogledd ddwyreiniol o darddiad y cysylltiad yng Nglyn Rhonwy ag yn gwbl danddaearol. Mi fyddai yn rhedeg yn gyntaf o fewn safle Glyn Rhonwy trwy ffos 0.6m o lydan a 1.2m o ddyfn ac yna mewn ffos debyg ar hyd ymylon priffyrdd A4086, A4244 a'r B4547 tuag at yr is-orsaf ym Mhentir. Mi fyddai'r ceblau eu hunain yn cael eu gosod o fewn dwythell wedi ei warchod mewn dyfnder o 1.7m yn y ffos. Yn y fan ble bydd y llwybr yn croesi'r Afon Rhyddallt, mae'n fwriad i dyllu yn y tir ger ochr yr afon a gyrru'r tyllwr o dan gwely'r afon i dir yr ochr arall i'r afon. Mae hyn yn angenrheidiol yma gan nad yw'r ddwythell presennol o fewn y bont yn addas ar gyfer ceblau 132kv.

1.3 Mae'r tir a effeithir gan y bwriad yn bennaf yn dir a ddatblygwyd o'r blaen gan gynnwys lonydd a phalmentydd cyhoeddus ac ochrau gwyrdd sydd yn gyfochrog a'r lonydd cyhoeddus. Mi fyddai mewn mannau yn croesi cyffyrdd cyhoeddus a mynedfeydd cerbydol preifat.

1.4 Mae'r bwriad wedi cael ei asesu yn nhermau yr angen i gyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol ffurfiol, a chanfuwyd nad oedd angen asesiad ffurfiol yn yr achos yma.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Unedol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

POLISI B10 - DIOGELU A CHYFOETHOGI ARDALOEDD GWARCHOD Y DIRWEDD - Yn diogelu a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Tirlun drwy sicrhau fod yn rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.

POLISI B12 - GWARCHOD TIRWEDDAU, PARCIAU A GERDDI HANESYDDOL - Gwarchod tirweddau, parciau a gerddi ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a fyddai’n achosi niwed arwyddocaol i’w cymeriad, eu hedrychiad neu eu gosodiad.

POLISI B16 - GWARCHOD SAFLEOEDD CADWRAETH NATUR O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod, mwyhau a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.

POLISI B20 - RHYWOGAETHAU A’U CYNEFINOEDD SY’N BWYSIG YN RHYNGWLADOL A CHENEDLAETHOL - Gwrthod cynigion sy’n debygol o achosi aflonyddwch neu niwed annerbyniol i rywogaethau a warchodir a’u cynefinoedd oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i ddiogelu nodweddion cydnabyddedig y safle.

POLISI B21 - CORIDORAU BYWYD GWYLLT, CYSYLLTIADAU CYNEFINOEDD A CHERRIG ‘SARN’ - Diogelu cyfanrwydd nodweddion tirwedd sy’n bwysig ar gyfer fflora a ffawna gwyllt oni bai bod rhesymau dros y datblygiad yn gorbwyso’r angen i gynnal y nodweddion ac y gellir darparu mesurau lliniaru.

POLISI B23 – MWYNDERAU - Diogelu mwynderau’r gymdogaeth leol drwy sicrhau bod rhaid i gynigion gydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau’r ardal leol

POLISI B29 - DATBLYGIADAU AR DIROEDD DAN FYGYTHIAD LLIFOGYDD - Rheoli datblygiad penodol ym mharth llifogydd C1 a C2 a’u cyfeirio tuag at dir addas ym mharth A oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy’n berthnasol i nodweddion y safle a phwrpas y datblygiad.

POLISI C3 - AIL-DDEFNYDDIO SAFLEOEDD A DDEFNYDDIWYD O’R BLAEN - Cymeradwyir cynigion sy’n rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio tir neu adeiladau a ddatblygwyd o’r blaen a leolir o fewn neu o gwmpas ffiniau datblygu cyn belled ag y bo’r safle neu’r adeilad a’r defnydd yn addas.

POLISI C6 - SAFLE AIL-DDATBLYGU GLYN RHONWY - Caniateir cynigion sy’n creu cyfleoedd cyflogaeth neu hamdden safonol er budd cymunedau Gwynedd ar safle ailddatblygu Glyn Rhonwy os gellir sicrhau bod y datblygiad yn cyd-fynd â chyfres o feini prawf sydd yn ymwneud a materion diwylliannol, ieithyddol, mwynderol, amgylcheddol, gweledol a phriffyrdd. Nodir hefyd y dylid datblygu’r safle mewn modd integredig.

POLISI C27 - CYNLLUNIAU YNNI ADNEWYDDADWY A CHYNALIADWY - Caniatau cynigion am gynlluniau ynni adnewyddadwy a rheoli ynni cyn belled ag y gellir cydymffurfio â cyfres o feini prawf sydd yn ymwneud ag effaith ar ansawdd gweledol y dirwedd a ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol.

POLISI CH18 - SEILWAITH SYDD AR GAEL - Gwrthodir cynigion datblygu os nad oes yna ddarpariaeth ddigonol o seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer y datblygiad oni bai y gellir cydymffurfio gydag un o ddau faen prawf penodol sydd yn nodi bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud er mwyn darparu cyflenwad digonol neu fod y datblygiad yn digwydd fesul dipyn er mwyn cyd-fynd ag unrhyw gynllun arfaethedig i ddarparu seilwaith.

POLISI CH19 - DARPARU SEILWAITH NEU WASANAETHAU CYHOEDDUS NEWYDD
Caniateir cynigion i ddarparu seilwaith neu wasanaethau cyhoeddus os gellir cydymffurfio gyda chyfres o feini prawf penodol sydd yn ymwneud â graddfa a dyluniad y datblygiad, ynghyd a materion gweledol, amgylcheddol, mwynderol a phriffyrdd.

POLISI CH33 - DIOGELWCH AR FFYRDD A STRYDOEDD - Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio gyda meini prawf penodol sydd yn ymwneud a'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Fersiwn 8, 2016
NCT 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
NCT 12: Dylunio

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C12/1451/15/LL – datblygiad cyfleuster storfa bwmp 49.9MW i gynnwys cronfa uchaf yn Chwarel Fawr gyda argae cysylltiol, cronfa isel yng Nghlyn Rhonwy gyda argae cysylltiol, adeilad yn cynnwys tyrbeini, gwaith peirianyddol cysylltiol gan gynnwys creu tomenni llechi newydd a gwyro priffyrdd – caniatawyd 19.02.14

Er gwybodaeth mae cais presennol yn cael ei ystyried ar gyfer Gorchymyn yn rhoi Caniatad Datblygu ("Development Consent Order") i gynllun storfa bwmp 99.9MW yng Nglyn Rhonwy. Mae cais o'r maint yma yn cael ei ystyried fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocad Cenedlaethol ("Nationally Significant Infrastructure Project") ac felly fe wneir penderfyniad terfynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Oherwydd fod llwybr y llinell arfaethedig yn croesi tiroedd tri ardal Cyngor Cymuned gwahanol, fe ymgynghorwyd a chynghorau cymuned Llanberis, Llanddeiniolen a Phentir. Ni dderbyniwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan unrhyw un o'r tri cyngor. |
| Uned Drafnidiaeth: | Derbyniwyd cadarnhad nad oedd gwrthwynebiad i'r bwriad, awgrymir cynnwys nodyn safonol gyda'r amodau yn datgan yr angen am drwyddedau perthnasol i gynnal gwaith sydd yn effeithio ar diroedd priffyrdd. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Datgan pryder ynglyn a'r bwriad ond yn awgrymu cynnwys amodau er mwyn gwarchod buddiannau'r amgylchedd, rhoddir sylw a chyngor am yr angen i gysylltu gyda CNC er mwyn trafod rhai agweddau ymhellach ag er mwyn diogelu'r trwyddedau perthnasol. |

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru: | Heb eu derbyn |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Sylwadau am yr angen i gysylltu gyda'r Gwasanaeth i drafod os bydd unrhyw waith yn effeithio ar diroedd halodedig. |
| Uned Hawliau Tramwy: | Angen gwarchod llwybrau hawliau tramwy. |
| Uned Bioamrywiaeth: | Cytunir gyda sylwadau Cyfoeth Naturiol Cymru a'r angen i gynnwys amodau perthnasol. |
| Gwasanaeth Archaeolegol: | Heb eu derbyn |
| SP Manweb: | Cadarnhad y bydd elfennau o'r gwaith yn debygol o effeithio ar rai o asedau'r cwmni, awgrymu y bydd angen trafod gyda'r cwmni ar ddulliau gwarchod cyn cynnal y gwaith. |
| Cymdeithas Pysgota Seiont/Gwyrfai: | Heb eu derbyn |
| Gorsaf Bwer Dinorwig: | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd nifer o rybuddion mewn mannau amlwg ar hyd llwybr y linell arfaethedig a gwybyddwyd trigolion a busnesau cyfagos. Hysbysebwyd y cais yn y wasg lleol hefyd. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd llythyr / gohebiaeth yn gwrthwynebu. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

5.1 **Egwyddor y datblygiad**

5.1.1 Fe welir o'r hanes cynllunio, fod yr egwyddor o greu adnodd storfa bwmp yng Nghlyn Rhonwy eisioes wedi ei dderbyn a'i gymeradwyo gan y Cyngor. Roedd cryn bryder ar adeg ystyried y cais yma ynglyn a'r ffordd y byddai'r trydan a gynhyrchwyd ar y safle yn cael ei ddosbarthu i'r grid cenedlaethol ac os y byddai peilonau neu bolion yn cael eu codi yr holl ffordd o Glyn Rhonwy at Pentir.

5.1.2 Fe welir felly trwy'r cais yma fod y cysylltiad yn cael ei wneud yn danddaearol ac fod ymgais bositif i sicrhau na fyddai effaith niweidiol o safbwynt mwynderau gweledol ar yr ardal leol.

5.1.3 Credir fod yr egwyddor yn dderbyniol a bod yr elfen yma yn gam angenrheidiol dilynnol i'r caniatad cynllunio sydd eisioes wedi ei wneud trwy sicrhau cyswllt rhwng y safle ble cynhyrchir y trydan a'r safle sydd yn ei ddosbarthu.

5.1.4 Er gwybodaeth mae cais presennol yn cael ei ystyried ar gyfer Gorchymyn yn rhoi Caniatad Datblygu ("Development Consent Order") i gynllun storfa bwmp 99.9MW yng Nglyn Rhonwy. Mae cais o'r maint yma yn cael ei ystyried fel Prosiect Seilwaith o Arwyddocad Cenedlaethol ("Nationally Significant Infrastructure Project") ac felly fe wneir penderfyniad terfynol gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mi fyddai'r gwaith o greu cyswllt grid yn gallu cael ei ystyried fel Datblygiad Cysylltiol ("Associated Development") yn arferol ond yma yng Nghymru ni ellir ei ganiatau fel rhan o'r broses ag felly mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol ar wahan am ganiatad trwy'r

Ddeddf Cynllunio. Yn yr un modd, gall gwaith a wneir yn arferol gan gwmniau trydan, nwy, ffôn, dŵr ayyb, gael ei wneud trwy hawliau datblygiadau a ganiateir ag ni fyddant angen caniatad cynllunio ffurfiol.

5.1.5 Mae safle Glyn Rhonwy wedi ei ddynodi yn benodol ar gyfer ei ail-ddatblygu, credir fod yr egwyddor eisioes wedi ei sefydlu a bod yr elfen yma yn angenrheidiol a pherthnasol i'r caniatad sydd eisioes wedi ei roi, mae'r bwriad felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisi C6 o'r CDU. Mae mwyafrif y gwaith yn cael ei gynnal o fewn tiroedd sydd eisioes wedi ei ddatblygu ac felly fe gredir fod y bwriad yn bodloni gofynion polisi C3 o'r CDU.

5.2 **Mwynderau gweledol**

5.2.1 Mae rhan o lwybr y gwaith wedi ei leoli o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd tra fod y llwybr gyfan wedi ei leoli o fewn dynodiad Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Dinorwig. Mi fyddai gosod y cysylltiad uwchben ddaear yn amharu ar y dynodiadau yma ond gan fod y bwriad yn un i gladdu'r cysylltiad, ni chredir y byddai effaith weledol niweidiol ar y tirweddau yma. Oherwydd hynny, credir y byddai'r bwriad yn dderbyniol o safbwynt mwynderau gweledol ac felly yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau B10 a B12 o'r CDU.

5.3 **Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.3.1 Mae gwaith o'r math yma, yn arbennig felly o ystyried y byddai yn cael ei gynnal ar ochrau ffyrdd cyhoeddus prysur, yn debygol o effeithio ar fwynderau lleol gan gynnwys mwynderau trigolion sydd yn byw yn agos i'r llwybr ac sydd yn cael eu effeithio yn uniongyrchol os bydd yn croesi rhan o diroedd preifat. Mae hefyd yn debygol o effeithio yn achlysurol pan fod angen gosod mesurau rheoli traffig pan yn gweithio ar rannau mwy cyfyng.

5.3.2 Er yr effeithiau yma, credir mai effaith tymor byr y byddant ac na fyddai effaith hir dymor niweidiol ar fwynderau cyffredinol yr ardal a'r trigolion yr effeithir. Fe welir y math yma o waith yn cael ei gynnal yn aml ar ochrau ac o fewn ffyrdd y Sir ac yn amlach na pheidio heb yr angen am ganiatad cynllunio. Ni chredir y byddai'r datblygiad yn amharu i raddau annerbyniol nac yn hir dymor ar fwynderau ac felly fe gredir ei fod yn cydymffurfio gyda gofynion polisi B23 o'r CDU.

5.4 **Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.4.1 Ni wrthwynebir y bwriad gan Uned Drafnidiaeth y Cyngor nac ychwaith yr Uned Hawliau Tramwy. Maent ill dau yn cydnabod y bydd y gwaith yn debygol o amharu ar symudiadau yn achlysurol, ond nid effaith hir dymor fydd hyn. Mae angen i'r datblygwr gyflwyno ceisiadau am drwyddedi perthnasol i gynnal y gwaith o fewn tiroedd priffyrdd ac fe sicrheir trwy hynny, y bydd y gwaith adfer yn cael ei wneud i safonau derbyniol, fodd bynnag nid yw hyn yn fater i'w ystyried fel rhan o'r cais cynllunio.

5.4.2 Credir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt ei gydymffurfiaeth gyda gofynion polisi CH33 o'r CDU.

5.5 **Materion bioamrywiaeth**

5.5.1 Mae mwyafrif y gwaith yn cael ei gynnal o fewn ochrau presennol priffyrdd cyhoeddus, oherwydd hynny, ni chredir y byddai effaith niweidiol amlwg ar

rywogaethau wedi eu gwarchod fel sydd yn cael ei grybwyll yn adroddiad 'Arolwg Cynefinoedd rhan 1' a gyflwynwyd gyda'r cais.

5.5.2 Mae'r gwaith i dyllu o dan Afon Rhyddallt yn golygu y bydd yn croesi rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Llyn Padarn. Mae CNC ac Uned Bioamrywiaeth y Cyngor wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r gwaith ac wedi cynnig sylwadau i'r bwriad gan gynnwys amodau i sicrhau na fydd y gwaith yn cael ei gynnal rhwng Hydref 17eg a Rhagfyr 31ain er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol ar fannau claddu wyau eog yn yr afon ag na fyddai goleuadau yn cael eu gosod ble fyddai effaith ar bysgod.

5.5.3 O ystyried nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad gan CNC na'r Uned Bioamrywiaeth cyn belled a bod amodau yn cael eu gosod, y cyngor perthnasol yn cael ei ddilyn a bod trwyddedau perthnasol yn cael eu canfod cyn dechrau'r gwaith, credir fod y bwriad yma yn dderbyniol ac yn cydymffurfio gyda gofynion polisiau B16, B20 a B21 o'r CDU.

## 5.6 Materion llifogydd

5.6.1 Mae llwybr y cysylltiad yn croesi Afon Rhyddallt/Seiont ger pentref Brynrefail ag oherwydd hynny, mi fyddai angen caniatad gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar ffurf trwydded arbennig i gynnal y gwaith.

5.6.2 Ni wrthwnebir y bwriad gan CNC ac felly ni chredir y byddai effaith niweidiol o safbwynt materion llifogydd, credir felly fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt ei gydymffurfiaeth gyda gofynion polisi B29 o'r CDU.

## 5.7 Materion isadeiledd

5.7.1 Mae polisiau CH18 a CH19 yn cyfeirio at faterion sydd yn ymwneud a seilwaith sydd ar gael a darparu seilwaith newydd. Credir fod y ddau bolisi yma yn berthnasol gan eu bod yn cyfeiro at yr angen i sicrhau fod darpariaeth seilwaith ddigonol ar gael i ddatblygiad allu mynd yn ei flaen. Mae caniatad wedi ei roi ar gyfer creu storfa bwmp ac mae'r cyswllt grid yn elfen gwbl angenrheidiol fel rhan o'r datblygiad. Credir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt gofynion polisiau CH18 a CH19 a'i fod yn cydymffurfio gyda gofynion perthnasol y ddau bolisi hwn.

5.7.2 Mae polisi C27 yn cyfeirio at gynlluniau ynni adnewyddadwy a chynaliadwy. Er nad yw'r cais yma yn benodol ar gyfer y math yma o ddatblygiad, credir ei fod yn ystyriaeth berthnasol gan fod meini prawf y polisi yn nodi:

- Bod unrhyw gyfarpar atodol cysylltiedig yn cael ei ddylunio a'i leoli mewn modd fydd yn lleddfu'r effaith weledol ar y dirwedd
- Na fydd unrhyw wifrau na phibellau uwchben cysylltiedig yn achosi niwed arwyddocaol i ansawdd gweledol y dirwedd

5.7.3 Trwy sicrhau fod y cyswllt grid yn gwbl danddaearol, credir fod y bwriad yn dderbyniol o safbwynt y meini prawf uchod ag felly yn bodloni gofynion polisiau C27 o'r CDU.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisiau a chanllawiau lleol a chenedlaethol yn ogystal a'r cefndir cynllunio, credir fod y

bwriad yma yn dderbyniol a’i fod yn bodloni gofynion y polisau perthnasol fel a nodir uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatau – amodau

1. Amser
2. Cydymffurfio gyda chynlluniau
3. Angen cyflwyno a chytuno ar gynllun rheoli adeiladu amgylcheddol (construction environmental management plan)
4. Amodau Cyfoeth Naturiol Cymru.
5. Nodiadau Priffyrdd
6. Nodyn Deddf Wal Rhannol